



Cyfarfod

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 6ED TACHWEDD, 2018
NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10.00YB**

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 29 Hydref 2018)

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Elin Walker Jones
Olaf Cai Larsen
Linda Ann Jones
Peter Read

Alan Jones Evans
Dafydd Owen
Annwen Daniels
Rheinallt Puw
Catrin Wager

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Nigel Pickavance

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nodi unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw faterion sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. AROLYGIAD O WASANAETHAU PLANT CYNGOR GWYNEDD 4 - 27

Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Dilwyn Morgan

I dderbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YMDRIN A CHWYNION A CHEISIADAU GWYBODAETH YR ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD 2017-18 28 - 51

Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Dilwyn Morgan

I dderbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

Eitem 4

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	6 Tachwedd 2018
Pwnc	Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd
Awdur	Sharon Eastlake
Aelod Cabinet	Cynghorydd Dilwyn Morgan

- 1 Cyflwynir yma yr adroddiad ar yr Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd.
- 2 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu:
 - graffu'r Adroddiad,
 - holi unrhyw gwestiynau i'r Arolygydd a'r Aelod Cabinet
 - gwneud unrhyw argymhelliad/argymhellion.

Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd

Tud. 6

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Trosolwg	5
Meysydd i'w datblygu	8
Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	10
Asesiad	12
Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau	14
Diogelu	19
Arwain, rheoli a llywodraethu	21
Methodoleg	23
Cydnabyddiaethau	24

Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gynnal arolygiad o wasanaethau i blant yng Ngwynedd yn ystod mis Mai 2018.

Roedd ein dull ar gyfer yr arolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn *Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* Llywodraeth Cymru (Mawrth 2016). Mae ein dull yn adeiladu ar safonau ansawdd cysylltiedig yr awdurdodau lleol a nodwyd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol*, a gyhoeddwyd dan Adran 145 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ogystal â hyn, ystyriodd yr arolygiad allu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r dull o arwain a llywodraethu swyddogaethau ei wasanaethau cymdeithasol.

Canolbwyntiodd yr arolygiad hwn ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r trefniadau i helpu ac amddiffyn plant a'u teuluoedd. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys:

- profiad a chynnydd plant ar ffiniau gofal, plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys ansawdd ac effaith gwasanaethau ataliol, effeithiolrwydd y penderfyniadau a wneir, gofal a chymorth, a chynllunio llwybrau
- y trefniadau ar gyfer darparu sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n dychwelyd adref, gan gynnwys defnyddio lleoliadau maethu, lleoliadau gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i ardal yr awdurdod lleol
- cydymffurfio â rheoliadau gwasanaethau maethu a'r safonau gofynnol cenedlaethol
- ansawdd yr arweinyddiaeth, rhianta corfforaethol a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith er mwyn penderfynu, datblygu a chefnogi digonolrwydd y gwasanaeth a'r broses o'i ddarparu, yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a'u teuluoedd.

Er bod yr arolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnydd a phrofiad y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal ac ar gyfnod pontio'r rhai sy'n gadael gofal i fod yn oedolion, roedd yr arolygiad hefyd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ac ymgysylltiad eu teuluoedd gyda'r canlynol:

- Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol
- Asesu/ailasesu anghenion o ran gofal a chymorth a chynllunio gofal a chymorth
- Ymholiadau ynglŷn ag amddiffyn plant, gweithdrefnau, camau diogelu brys, a chynlluniau diogelu gofal a chymorth.

Gwnaeth yr arolygwyr ddarllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, a chyfweld â rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner.

Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bynnag yr oedd yn bosib. Mynychodd pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal ddau grŵp ffocws.

Trosolwg o'r canfyddiadau

- Gwelsom fod gan wasanaethau plant Gwynedd gryfderau sylweddol ac roedd ganddynt weithlu ymrwymedig a chadarn sy'n ymateb i lwyth gwaith cynyddol o ran cymhlethdod a maint, ond sy'n hawdd ei drin. Roedd staff yn dangos ymroddiad ac ymrwymiad i hyrwyddo'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a theuluoedd.
- Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn faes sydd angen ei ddatblygu'n barhaus. Dim ond yn ddiweddar yr oedd yr awdurdod wedi gweithredu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac roedd yn cydnabod bod angen sefydlu a datblygu'r gwasanaeth ymhellach – wedi'i lywio gan wersi a ddysgwyd o arferion gweithredol. Mae angen gwneud gwaith wrth ddatblygu sut caiff pobl wybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan yr adran, yr hyn y gallant ei ddisgwyl a'r hyn sydd ar gael yn y gymuned.
- Ymatebwyd i atgyfeiriadau mewn modd amserol, ac ar y cyfan, gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn effeithiol, gyda sgysiau gan weithwyr ar ddyletswydd o ran cymhwysedd yn cael eu cynnal yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Maes sydd angen ei ddatblygu ymhellach yw'r cynnig rhagweithiol o roi cymorth, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r cysylltiadau gyda'r trydydd sector a gwasanaethau ataliol.
- Mae strategaeth cefnogi teuluoedd Cyngor Gwynedd yn cael ei datblygu, ac mae angen dull gwell o adnabod anghenion / anghenion nad ydynt wedi cael eu diwallu yn y sir. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r strategaeth hon a chryfhau gwasanaethau ataliol ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd. Roedd bylchau wedi eu cydnabod o ran atal ac ymyrryd yn gynnar ar draws Gwynedd, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff o wasanaethau cymorth.
- Ar y cyfan roedd asesiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, yn ymateb i anghenion y plant sy'n dod i'r amlwg ac roeddent o ansawdd da. Gwelsom enghreifftiau o asesiadau a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r plant, gyda dadansoddiad eglur wrth gydbwysu risgiau, cryfderau a rhwystrau. Pan oedd yr asesiad yn nodi angen cymwys, roedd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu mewn da bryd. Gwelwyd bod ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth yn anghyson, ac nid oedd asesiadau'n cael eu diweddarau fel mater o drefn pan oedd newid sylweddol wedi bod o ran amgylchiadau unigolion neu deuluoedd er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio gofal a rhoi cymorth yn fwy effeithiol.
- Dywedodd staff gwaith cymdeithasol wrth arolygwyr fod amseroldeb ac ansawdd cyfraniadau partneriaid i asesiadau yn dda ar y cyfan.

Gwnaeth arolygwyr weld rywfaint o waith partneriaeth aml-asiantaeth effeithiol, ac ymrwymiad i gefnogi teuluoedd a chynnal plant yn eu teuluoedd. Gwelsom enghreifftiau lle roedd cyfraniad dwys gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, tîm ar ffiniau gofal y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau partner wedi arwain at ganlyniadau da i'r plentyn a'i deulu.

- Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar y cyd â phlant, teuluoedd ac asiantaethau partner. Mae angen cryfhau'r cynlluniau gofal a chymorth er mwyn galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i gael dealltwriaeth fwy eglur o'r penderfyniadau a wneir, ac mewn ffordd sy'n hawdd i'w dilyn.
- Roedd adolygiadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â gofynion; ond mae angen gwneud gwaith i gryfhau'r trefniadau adolygu ar gyfer plant a phobl ifanc, gan greu profiadau gwell o gynnal adolygiadau. Nid oedd rhai plant a phobl ifanc yn gweld eu proses adolygu neu lwybr asesu mewn modd cadarnhaol.
- Roedd gwasanaethau plant Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth uchel i gadw'r plant yn ddiogel. Roedd gweithdrefnau'n gadarn ac yn amserol; roedd y staff yn hyderus wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau, ac yn ymfalchïo yn y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd ar gyfer plant trwy eu gwaith. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio gwella perfformiad ymhellach trwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd wrth ddatblygu 'model effeithiol o amddiffyn plant'.
- Gwelsom arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r bwrdd rhianta corfforaethol yn uchelgeisiol wrth ddatblygu'r canlyniadau gorau i blant sy'n derbyn gofal, ac mae'r Cyngor i gyd yn cefnogi'r bwrdd yn dda.
- Roedd pennaeth y gwasanaeth yn arwain yr adran gwasanaethau plant yn hyderus ac yn gryf, gan ddangos ymrwymiad tuag at ddatblygu'n barhaus. Lleolir arbenigedd gwaith cymdeithasol proffesiynol ar yr haen hon o'r sefydliad. Roedd y tîm uwch-reolwyr yn creu diwylliant gwaith cadarnhaol, uchelgeisiol a chefnogol. Roedd uwch-reolwyr yn y gwasanaethau i blant yn llawn gwybodaeth, yn brofiadol ac yn cynnig sefydlogrwydd ar gyfer y gweithlu. Bu newidiadau yn haen rheolwr y tîm gyda rhai rheolwyr yn newydd i'w rôl.
- Ar y cyfan, roedd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gadarnhaol o ran y cymorth a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod gwerthfawrogi gonestrwydd yn anad dim, ac roeddent yn ystyried rôl y cynghorwyr personol yn hanfodol wrth eu cynorthwyo i dyfu i fod yn oedolion.
- Roedd cynnig gweithredol y Gymraeg wedi'i ymwreiddio'n llawn yn yr awdurdod lleol.

- Mae angen cryfhau'r trefniadau maethu er mwyn sicrhau bod plant yn cael profiadau cadarnhaol yn gyson, a chanlyniadau gwell pan fyddant yn derbyn gofal. Mae argaeledd gofalwyr maeth a lleoliadau addas yn faes heriol, o ystyried proffil poblogaeth Gwynedd o blant sy'n derbyn gofal - gyda chynnydd o ran y plant sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda rheini ac unigolion cysylltiedig, ac anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau addas ar gyfer plant sydd ag anghenion dwys.

Meysydd i'w datblygu

Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

1. Mae angen mynd i'r afael â bylchau a gydnabyddir o ran atal ac ymyrryd yn gynnar, a chryfhau'r cynnig rhagweithiol o gymorth wrth ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda gwasanaethau cymunedol, cryfhau'r ffordd y maen nhw'n cyfeirio pobl at asiantaethau, a datblygu ystod o wasanaethau hygyrch sydd ar gael.
2. Mae angen i ddatblygiadau diweddar o ran gwybodaeth, cyngor a chymorth gael eu hategu gan waith parhaus i hwyluso atgyfeiriadau priodol ac amserol a chyfranogiad gydag asiantaethau partner.
3. Mae angen datblygu adnodd ar gyfer staff gwybodaeth, cyngor a chymorth er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau lleol iddynt er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u dyletswyddau o ran rhoi gwybodaeth yn effeithiol.
4. Mae angen sicrhau bod cronolegau yn cael eu defnyddio a'u diweddarau'n gyson er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i fynd at wybodaeth bwysig a pherthnasol am achosion mewn da bryd er mwyn hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Asesiad

5. Mae'n rhaid diweddarau asesiadau yn dilyn newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, er mwyn galluogi dull effeithiol o gynllunio gofal, a gwell dull o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a sicrhau canlyniadau gwell iddynt.

Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

6. Mae angen datblygu ymhellach y trefniadau adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chynnig cyfleoedd cyson i blant a phobl ifanc gyfarfod â'r swyddog adolygu annibynnol cyn adolygiad. Mae meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt yn cynnwys y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, ystyried dymuniadau'r plentyn/person ifanc o ran lleoliad yr adolygiad, a gwelliannau o ran cofnodi anghenion y plentyn, a gwaith uniongyrchol a wnaed eisoes.
7. Mae angen datblygu ymhellach y gwaith o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu datblygu ar y cyd yn gyson. Mae angen cefnogi plant, pobl ifanc a gofalwyr i ddeall y penderfyniadau sy'n sail i gynlluniau gofal a chymorth.
8. Mae angen cryfhau trefniadau maethu a chydymffurfio â rheoliadau. Dylid rhoi blaenoriaeth i recriwtio gofalwyr maeth fel y gellir cynnig gwell dewis o ran lleoliadau.

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

9. Mae angen datblygu dulliau sicrhau ansawdd gwell ar draws yr adran er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir ar gyfer plant a theuluoedd yn amserol, o ansawdd da ac yn cyflawni canlyniadau da.

Camau nesaf

10. Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Gwynedd ystyried y meysydd a nodwyd i'w datblygu a chymryd camau priodol. Mae AGC yn ystyried bod gwasanaethau plant Gwynedd yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, a bod ganddo'r gallu i adeiladu ar gryfderau sy'n bodoli eisoes. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgareddau ymgysylltu parhaus â'r awdurdod lleol.

1. Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod yn cydweithio â sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, cadw'n gyfredol a gwneud y defnydd gorau o wybodaeth, cymorth a chyngor o'r sector statudol, gwirfoddol a phreifat a'r adnoddau sydd ar gael yn ei ardal. Mae gan bawb, gan gynnwys gofalwyr, fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau ac maent yn derbyn cyngor a chymorth yn ddi-oed, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r hyn y gallant ei ddisgwyl o ran yr ymateb a gânt gan y gwasanaeth. Mae trefniadau'n effeithiol wrth ohirio ac atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o fannau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd. Mae'r gwasanaeth yn gwrandao ar bobl ac yn dechrau gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae dangos y ffordd ac atgyfeirio pobl yn effeithiol yn cynnig dewis i bobl ynghylch cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 1.1. Roedd yr awdurdod lleol wedi bod yn gweithio'n galed yng nghyd-destun y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn ail-lunio ei wasanaethau, ond ar adeg yr arolygiad, ers mis Ebrill 2018 yn unig yr oedd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth wedi bod yn gweithredu. Bu cynnydd o ran y galw am wasanaeth i blant, gyda'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn uwch yn ystod 2018 nag yn ystod 2014 pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf. Ymatebir i atgyfeiriadau a dderbynnir gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn modd amserol a phriodol. Gwnaethom arsylwi ar ymatebion yn cael eu rhoi mewn da bryd ac mewn modd priodol i atgyfeiriadau amddiffyn plant. Gwelsom staff yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn defnyddio'r sgwrs *yr hyn sy'n bwysig* a'r pum cam at gymhwysedd yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.2. Roedd cynnig gweithredol y Gymraeg wedi'i ymwreiddio'n llawn, a'r Gymraeg oedd iaith gwaith yr awdurdod lleol. Roedd yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, gyda'r mwyafrif helaeth o'r gweithlu yn siarad Cymraeg.
- 1.3. Gwelsom fod y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn dal i ymwreiddio, ac nid oedd yn cael ei gefnogi eto gan drothwyon clir a oedd wedi'u negodi gyda phartneriaid. Roedd staff yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn darparu asesiadau cymesur ac yn ymgymryd â gwaith cymdeithasol yn y tymor byr i hwyluso gwaith ataliol. Pan oedd angen ymrwymiad yn y tymor hirach, neu ymyrryd i amddiffyn plant, roedd achosion yn cael eu trosglwyddo i'r timau ardal berthnasol. Gwelsom dystiolaeth fod achosion yn cael eu trosglwyddo i'r timau yn briodol. Gwelsom achosion amddiffyn plant yn cael eu trosglwyddo'n ddi-

dor o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r timau ardal a fyddai'n cynnal yr ymchwiliadau amddiffyn plant.

- 1.4. Gwelsom y byddai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru er mwyn cael mynediad at wybodaeth gefndirol a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch atgyfeiriadau sy'n dod i mewn. Gwelsom dystiolaeth o blant lle roedd ail atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud, ac mae angen dull cryfach o sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu'n effeithlon i alluogi penderfyniadau effeithiol. Dim ond yn ddiweddar yr oedd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi'i rhoi ar waith yng ngwasanaethau plant Gwynedd, ac fe'u gwelsom yn anodd cael trosolwg o'r plentyn oherwydd bod gwaith datblygu'n parhau ar y system er mwyn sicrhau y gellir cael mynediad at wybodaeth a'i storio mewn modd amserol. Roedd y system yn achosi rhywfaint o heriau ar gyfer ymarferwyr ar draws timau, yn enwedig wrth chwilio am wybodaeth. Dywedodd ymarferwyr wrthym nad oeddent bob amser yn hyderus eu bod wedi dod o hyd i'r holl wybodaeth y gallai fod ei hangen arnynt. Gallai trefnu ffeiliau achos yn ôl cronoleg gynorthwyo'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau priodol mewn da bryd.
- 1.5. Roedd uwch-ymarferydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cynnal trafodaethau strategaeth ynghylch atgyfeiriadau newydd mewn da bryd, cyn eu trosglwyddo i dîm. Gwelsom dystiolaeth o waith gweithredol da rhwng adrannau'r gwasanaethau i blant a'r heddlu a rhai gweithwyr ieuchyd proffesiynol.
- 1.6. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn datblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sydd newydd ei sefydlu, er mwyn galluogi gweithwyr i roi gwybodaeth gynhwysfawr i'r cyhoedd. Roedd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac roedd gan aelodau staff fynediad i DEWIS, fodd bynnag, nid oedd rhai aelodau o'r staff yn hyderus bod ganddynt restr gynhwysfawr o wybodaeth y gallent ei dynnu arno. Ni welsom wybodaeth ar gael ar gyfer y sawl sy'n galw'r swyddfeydd ynghylch yr amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn eu cymunedau a'r gwasanaethau ataliol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.
- 1.7. Roedd yn bositif gweld gweithiwr 'tîm o gwmpas y teulu' fel aelod o wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth - byddai ei rôl i ymateb i atgyfeiriadau a mapio meysydd o angen a chyfeirio pobl at wasanaethau ataliol ac yn y gymuned.
- 1.8. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi nodi'r diffyg hwn, ac yn cymryd camau yn barod i wneud gwelliannau. Mae argaeledd gwasanaethau ataliol a chyfeirio'n effeithiol at sefydliadau yn y trydydd sector yn faes sy'n cael ei ddatblygu, a ategir gan y 'Strategaeth Cefnogi Teuluoedd' sydd bellach yn cael ei datblygu gyda phenodiad uwch-reolwr yn ddiweddar.

2. Asesiad

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r holl bobl sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn derbyn un yn eu dewis iaith. Mae'r holl ofalwyr y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad anghenion gofalwr, waeth pa fath o ofal a ddarperir, faint yw eu hincwm ariannol, neu ba lefel o gymorth y gallai fod ei hangen. Mae pobl yn derbyn asesiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae asesiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol y sawl sy'n cael ei asesu a rhai'r bobl berthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu eu lles a'u diogelwch yn ogystal â lles a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau yn darparu dealltwriaeth eglur o beth fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i anghenion a nodwyd. Mae camau gweithredu a argymhellir, sydd â'r bwriad o gyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl, yn cael eu nodi ac yn cynnwys yr holl rai y gellir eu bodloni trwy wasanaethau ataliol neu gymunedol yn ogystal â darpariaeth arbenigol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 2.1. Gwelsom fod asesiadau manwl o ansawdd da yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Gwelsom nifer o asesiadau lle'r oedd y plentyn yn destun achos cyfreithiol, ac roedd yr asesiadau hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gryfderau, rhwystrau a risgiau unigolion a theuluoedd.
- 2.2. Ar y cyfan roedd ansawdd asesiadau'n dda, a gwnaeth arolygwyr weld tystiolaeth dda o blant yn cael eu gweld fel rhan o'u hasesiad a bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd asesiadau'n cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda'r teulu ac yn cynnwys yr hyn a oedd yn bwysig iddynt, gyda dadansoddiad yn canolbwyntio ar gryfderau a risgiau posibl, a oedd yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion cymwys a chymorth priodol yn gynnar. Roedd teuluoedd yn deall canlyniad yr asesiadau a'r camau nesaf. Dywedodd rhai teuluoedd wrth arolygwyr fod eu gweithwyr cymdeithasol a'u gweithwyr ar ffiniau gofal yn cymryd amser i wrando arnynt, yn esbonio'r broses ac yn trafod canfyddiadau'r asesiad – a bod hyn yn eu cefnogi i ddeall a gwneud y newidiadau a nodwyd. Fodd bynnag, mewn enghreifftiau eraill, nid oedd gan deuluoedd gyd-ddealltwriaeth o'r hyn a fyddai'n digwydd nesaf. Er bod asesiadau fel arfer yn cael eu rhannu'n ysgrifenedig gyda'r teulu a'r asiantaethau partner perthnasol, nododd staff nad oedd fformat y ddogfen asesu yn hawdd ei ddarllen.
- 2.3. Roedd tystiolaeth fod staff yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc, ond nid oedd fformat yr asesiad bob amser yn nodi ansawdd y gwaith da a wnaed, gan gynnwys gwaith uniongyrchol fel rhan o'r asesiad.

- 2.4. Prin oedd y dystiolaeth a welsom o asesiadau'n cael eu diweddarau er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn derbyn cymorth yn yr hirdymor. . Byddai diweddarau asesiadau pan fo newidiadau sylweddol wedi bod yn galluogi dull mwy cadarn o sicrhau a chefnogi anghenion lleoliadau hirdymor plant a chynnal ffocws ar ganlyniadau gwell.
- 2.5. Roedd ansawdd y llwybrau asesu yn amrywio, ac roedd angen mwy o fanylion yn y dogfennau adolygu o ran anghenion a chanlyniadau diweddaraf pobl ifanc. Gwelsom dystiolaeth nad oedd pobl ifanc bob amser yn ymgysylltu â'r llwybr asesu a'r broses gynllunio, a dywedodd rhai wrthym nad oeddent yn hoffi'r fformat adolygu presennol. Roedd gweithwyr cymdeithasol o'r tîm 16 a hŷn a oedd newydd eu dyrannu i'r person ifanc yn ymgymryd â'r llwybrau asesu a'r cynlluniau. Roedd pobl ifanc yn ystyried bod y broses o lenwi'r ffurflen yn ddi-fudd ar adeg pan oeddent dan bwysau, megis gan arholiadau.
- 2.6. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn y timau wedi cael eu hyfforddi i gynnal asesiadau arbenigol, megis asesiad o bobl ifanc sydd mewn perygl o arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol (AIMS) ac asesiad rhianta o rieni sydd ag anawsterau dysgu (PAMS). Gwelsom dystiolaeth lle'r oedd yr asesiadau hyn wedi cyfrannu at gynllunio gofal effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau rhieni a babanod, a'r cyfleoedd a gynigir i rieni ddangos gallu rhianta o fewn mesurau diogelu lleoliadau rhieni a babanod.
- 2.7. Roedd gwasanaeth integredig Derwen yn cynnal pob asesiad ar gyfer plant anabl, gan gynnwys y rhai hynny lle'r oedd pryderon o ran risg, neu niwed posibl i blentyn anabl. Sampl fach o asesiadau a wnaed gan y tîm yn unig a adolygwyd gan yr arolygwyr, ond ar y cyfan roedd yr asesiadau a'r cynlluniau dilynol o ansawdd da. Roedd y tîm yn cydweithio gyda'r tîm plant a theuluoedd ar rai achosion, ac roeddent yn gweld hyn fel adnodd gwerthfawr o ran cael cyngor a chymorth – yn enwedig mewn perthynas â datblygu eu harferion amddiffyn plant. Nododd arolygwyr fod ychwanegu'r uned gwyliau byr newydd i blant yn ddiweddar wedi darparu ffordd ychwanegol o gefnogi teuluoedd, a chynnig cyfleoedd ar gyfer cael profiadau cadarnhaol.

3. Gofal a chymorth a chynllunio llwybrau

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn derbyn gofal, cymorth ac amddiffyniad aml-asiantaeth sy'n amserol ac effeithiol lle bo'n briodol. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, dewis a lles, sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel, ac sy'n adlewyrchu'r canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae pobl yn cael cymorth i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i'w cynhwysiant cymdeithasol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 3.1. Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi cynnydd o ran nifer y plant sydd wedi'u lleoli gydag aelod o'r teulu, ac sydd o dan leoliad gyda rheoliadau rhiant, ac mae hefyd wedi cydnabod yr her o ddod o hyd i leoliadau addas ar gyfer plant sydd ag anghenion dwys a chymhleth.
- 3.2. Mae gan yr awdurdod lleol dulliau ar waith i sicrhau bod cynllun gofal a chymorth amserol neu gynlluniau llwybrau gan y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sy'n unol â'r canllawiau. Mae rhywfaint o'r dogfennau cynllunio gofal yn cael eu datblygu o hyd, ar ôl i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gael ei rhoi ar waith. Roedd ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn adlewyrchu asesiad wedi'i ddiweddarau. Dywedodd rhai o'r plant a phobl ifanc wrthym nad oeddent bob amser yn deall y rheswm dros y newidiadau a wnaed i'w cynlluniau gofal. Mae angen cryfhau'r cysylltiad a'r gwaith uniongyrchol gyda'r plant er mwyn eu galluogi i gael dealltwriaeth well o'u cynlluniau gofal. Fodd bynnag, gwelsom rai enghreifftiau da o gynllunio gofal a wnaed mewn partneriaeth â theuluoedd ac asiantaethau. Gwelsom dystiolaeth o weithiwr cymdeithasol yn creu cynllun un dudalen ar gyfer plentyn er mwyn sicrhau bod y cynllun yn hawdd i'w ddilyn a'i ddeall. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gynllunio gofal effeithiol yn y gwasanaeth, lle'r oedd aelodau o'r teulu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth ac asiantaethau yn cydweithio er mwyn cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal.
- 3.3. Datblygwyd y tîm ar ffiniau gofal er mwyn cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd a sicrhau bod plant yn dychwelyd adref ar ôl derbyn gofal. Gwelsom dystiolaeth o'r tîm yn gweithio'n agos iawn gyda theuluoedd, ochr yn ochr â thimau gwaith cymdeithasol ac asiantaethau partner er mwyn cefnogi plant i gyflawni hyn. Gwelsom dystiolaeth o ganlyniadau da, lle'r oedd teuluoedd yn derbyn cymorth dwys ac ymateb amlasiantaethol.

Y rhai sy'n gadael gofal

- 3.4. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan eu cyngorwyr personol, ac roeddent yn eu hystyried yn 'achubwyr bywyd.' Er bod y gwasanaeth wedi'i gyflunio i ddarparu'r nifer lleiaf posibl o newidiadau o ran gweithwyr

cymdeithasol, clywsom y byddai rhai pobl ifanc yn croesawu cymorth gan y tîm 16 a hŷn ar adeg gynharach i'w paratoi ar gyfer dod yn oedolion, a'r heriau a oedd ynghlwm â'r cyfnod pontio hwn.

- 3.5. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr yn dangos cryfder o ran parhau i weithio gyda phobl ifanc er gwaethaf eu hymddygiad, ac ethos cadarnhaol o fod eisiau helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- 3.6. Roedd yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i annog pobl ifanc rhwng 16 a 17 i barhau i dderbyn gofal nes eu pen-blwydd yn 18, ac fel y bo'n briodol yn unol â'r 'canllaw pan fydda i'n barod' y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y gall y cyfnod pontio hwn achosi pryder ymysg pobl ifanc. Gwelsom dystiolaeth o ddarpariaeth tai â chymorth ar gyfer pobl ifanc, ond mae'r awdurdod yn cydnabod bod amrediad yr opsiynau o ran llety â chymorth yn gyfyngedig, a bod angen dull strategol er mwyn galluogi pobl ifanc sydd angen cymorth parhaus i symud o wasanaethau plant i oedolion i wneud hynny'n ddi-dor.
- 3.7. Mae modd i'r rhai sy'n gadael gofal gael mynediad at gyfleoedd addysg a chyflogaeth briodol, gan gynnwys profiad gwaith. Gwelsom fod pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i barhau â'u haddysg a hyfforddiant. Gwelsom hefyd enghreifftiau o bobl ifanc yn cael eu cefnogi'n ariannol i barhau yn eu hastudiaethau mewn lleoliadau prifysgol. Canfuom fod y tîm 16 a hŷn yn rhagweithiol o ran defnyddio gwybodaeth broffesiynol arbenigol gan dimau eraill, er mwyn ehangu eu gwybodaeth a rhoi cyfeiriad wrth gefnogi pobl ifanc gyda'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu.

Cynllunio yn yr hirdymor

- 3.8. Roedd yr awdurdod lleol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a swyddogion adolygu annibynnol yn rhoi blaenoriaeth i ddod o hyd i leoliad parhaol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio cynnar, rheoli achosion yn dda a goruchwyliaeth gan reolwyr, gan gynnwys trefniadau panel er mwyn sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gynllun parhaol sy'n amserol, perthnasol, effeithiol ac yn unol â'r canllawiau. Gwelsom dystiolaeth o ddull priodol o graffu ar gynlluniau gofal yng nghofnodion panel yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, lle roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran trothwyon i ddechrau gwaith achos cyn gofal a chynllunio gofal terfynol. Mae'r defnydd o lety gwirfoddol Adran 76, (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) wedi gostwng ac fe'i defnyddir pan fo angen llety tymor byr ar blant. Pan fo angen cynlluniau yn y tymor hirach, mae'r cynlluniau hyn yn cael eu gwneud fel rhan o achos cyfreithiol, lle caiff gwarcheidwad ei benodi er mwyn cynnal hawliau'r plentyn.
- 3.9. Gwnaeth yr awdurdod lleol ddangos ei fod wedi ymrwymo i ddychwelyd plant a phob ifanc adref yn llwyddiannus lle roedd o'r budd gorau iddynt. Lle mae'r cynllun ar gyfer y plentyn neu berson ifanc oedd dychwelyd

adref, roedd tystiolaeth o waith pwrpasol er mwyn helpu'r teulu i newid fel ei fod yn ddiogel i'r plentyn ddychwelyd i'r teulu. Roedd gweithwyr yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i'r plant aros gyda'u rhieni.

- 3.10. Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod rheolwyr, staff a phartneriaid yn cydnabod ac yn deall rôl y swyddog adolygu annibynnol. Mae gan swyddogion adolygu annibynnol yr annibyniaeth a'r gallu i fonitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol, ond, mae angen bod yn fwy manwl o lawer er mwyn sicrhau bod y broses adolygu yn gadarn; yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn herio meysydd sydd angen eu gwella i gynnal hawliau plant. Canfuom nad oedd swyddogaethau sicrhau ansawdd y swyddogion adolygu annibynnol wedi'u hymwreiddio o fewn fframwaith sicrhau ansawdd cryf, ac roedd adroddiadau'n cael eu creu yn ôl y galw, ac nid fel rhan o drefniant ffurfiol. Gwelsom dystiolaeth fod modd i swyddogion adolygu annibynnol herio cydymffurfiaeth, achosion o adael i bethau lithro ac effeithiolrwydd cyfraniadau asiantaethau i'r cynllun; fodd bynnag, roedd arolygwyr a rhai aelodau o staff yn ystyried bod angen cryfhau'r maes hwn. Mae swyddogion adolygu annibynnol yn hyderus bod ganddynt lwybrau cryf er mwyn trosglwyddo problemau i reolwyr, swyddogion ac aelodau ar lefel uwch fel y bo'n briodol.
- 3.11. Roedd adolygiadau am blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau, fodd bynnag, mae angen cryfhau'r trefniadau adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chynnig cyfleoedd cyson i blant a phobl ifanc gyfarfod â'r swyddog adolygu cyn yr adolygiad. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ystyried dymuniadau'r plentyn/person ifanc o ran lleoliad yr adolygiad; cael cofnod gwell o anghenion, cryfderau a risgiau'r plentyn, meysydd o waith uniongyrchol a wnaed; llais y plentyn a chanlyniadau dymunol yn y dogfennau adolygu. Clywsom nad oedd rhai plant a phobl ifanc yn gweld adolygiadau a gynhaliwyd mewn ysgolion yn gadarnhaol, ond roedd rhai adolygiadau'n cael eu cynnal mewn ysgolion o hyd. Mewn sampl o ddogfennau adolygu a welwyd gan yr arolygwyr, nid oedd llais, safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn wedi cael eu cofnodi ddigon, ac roedd angen mwy o fanylion er mwyn cael darlun o anghenion a risgiau cyfredol, a'r gwaith a wnaed er mwyn monitro cynnydd. Prin oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a welsom yn y dogfennau adolygu o waith hanes bywyd yn cael ei wneud gyda'r plentyn.

Dewis lleoliad, sefydlogrwydd a lles

- 3.12. Roedd y penderfyniad i leoli plentyn i ffwrdd o'i awdurdod cartref yn seiliedig ar asesiad trylwyr a dadansoddiad o anghenion y plentyn. Gwelsom fod ystyriaethau a chymau gweithredu Cyngor Gwynedd wrth wneud lleoliad y tu allan i ardal/y tu allan i Gymru yn bodloni gofynion rheoleiddiol. Roedd paneli'n cael eu penodi'n briodol, ac roedd swyddog wedi'i enwebu yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn da bryd, yn eu cofnodi a'u cadarnhau. Roedd yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r gofynion i hysbysu'r awdurdod sy'n derbyn bod plentyn yn symud i'w ardal ac i asesu digonolrwydd yr adnoddau i ddiwallu anghenion y

plentyn cyn i'r lleoliad gael ei wneud, er mwyn sicrhau y bydd anghenion gofal, iechyd ac addysgol y plentyn yn dal i gael eu diwallu cyn gynted ag y bydd yn dechrau byw y tu allan i ardal ei gartref, heb amharu arno ryw lawer. Roedd gan yr awdurdod lleol hefyd drefniadau da ar waith o ran yr hysbysiadau roedd yn eu derbyn gan awdurdodau lleoli.

- 3.13. Gwelsom dystiolaeth fod dod o hyd i leoliadau sy'n addas ar gyfer pobl ifanc yn broblematic. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym fod rhai lleoliadau'n cael eu gwneud oherwydd mai nhw oedd yr unig opsiwn oedd ar gael - nid oherwydd mai nhw oedd y dewis gorau i'r plentyn o ran lleoliad. Mae'r diffyg o ran dewis yn golygu nad oes modd creu cynlluniau wrth gefn bob amser, ac mae'n cyfyngu ar allu'r gweithiwr cymdeithasol i wneud y cynlluniau gorau ar gyfer plant. Gwelsom enghraifft o blentyn yn cael ei leoli gyda theulu estynedig yn unol â'i ddymuniadau, ac enghraifft o blentyn yn cael ei leoli (mewn argyfwng) ar leoliad nad oedd yn cyd-fynd â'i anghenion yn llawn. Roedd dod o hyd i leoliadau yn y tymor hirach, a oedd yn cyd-fynd ag anghenion plant a phobl ifanc yn llawn yn dasg anodd. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael eu lleoli gyda rhieni, a oedd ar y cyfan yn cyflawni canlyniadau da, ond bod angen cymorth dwys i reoli lefelau risg. Gwelwyd arferion da a risgiau'n cael eu rheoli, gyda'r gweithlu yn tynnu ynghyd ac yn mynd yr ail filltir pan oedd sefyllfaoedd yn codi lle'r oedd angen cymorth dwys ar bobl ifanc. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan oedd y gweithlu'n ceisio cynnal plant yn eu lleoliadau.
- 3.14. Mae gan Gyngor Gwynedd strategaeth comisiynu lleoliadau sy'n nodi blaenoriaethau allweddol i fynd i'r afael ag anghenion plant sy'n derbyn gofal, ac mae'n cydnabod bod newid sylweddol wedi bod o ran proffil plant sy'n derbyn gofal. Mae 25% o blant sy'n derbyn gofal yn byw gyda rhieni; o'r 64% sydd wedi'u lleoli mewn trefniadau maethu, mae 27% gyda theulu a ffrindiau, ac mae 5% wedi'u lleoli mewn gofal preswyl. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda'i bartneriaid rhanbarthol i ddod o hyd i atebion o ran cael digon o leoliadau, ac argaeledd lleoliadau arbenigol unigryw er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc pan fo anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau addas. Mae angen datblygu'r maes hwn o waith ar fyrder fel y gellir sicrhau canlyniadau gwell a dewisiadau priodol o ran lleoliad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- 3.15. Mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth i recriwtio gofalwyr maeth, gan fod y tîm maethu yn wynebu galw cynyddol am asesiadau hyfywedd ac asesiadau person cysylltiedig. Mae angen canolbwyntio er mwyn cryfhau trefniadau gwaith yn y tîm er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau.
- 3.16. Gwelsom waith partneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau addysg ac iechyd wrth sicrhau canlyniadau da ar gyfer y plant sydd angen gofal a chymorth. Gwelsom enghraifft o'r adran addysg yn sicrhau cymorth gan athro llawn amser i weithio gyda phlentyn a oedd wedi'i wahardd, a'i ailintegreiddio i addysg unwaith eto. Gwelsom lwybr clir yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i gael mynediad at gymorth iechyd emosiynol, a chyfleoedd i ofalwyr maeth gael mynediad at gymorth ac ymgynghori â'r

gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) pan oedd gan y plant sy'n derbyn gofal anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

Cyfranogiad

- 3.17. Ar y cyfan, roedd gweithwyr yn hyrwyddo llais plant a phobl ifanc, ac yn gweithio mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn; fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu bob amser yn y cofnodion. Gwelsom fod angen ymgysylltu â phobl ifanc yn well pan oedd newidiadau'n cael eu gwneud i gynlluniau gofal, er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o'r penderfyniadau a wneir.
- 3.18. Byddai plant sy'n derbyn gofal yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gwrdd â phlant eraill sy'n derbyn gofal. Nid yw'r cyfle hwn wedi'i gynnig i blant yn y gorffennol, ac mae'n faes y mae Cyngor Gwynedd yn edrych i'w ddatblygu. Roedd person ifanc a oedd yn mynd i'r bwrdd rhianta corfforaethol er mwyn cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc.
- 3.19. Mae polisi cwynion Cyngor Gwynedd yn eglur ac yn hawdd i'w ddilyn, a gwelwyd tystiolaeth fod rheolwyr yn rhagweithiol wrth ymateb i faterion a'u datrys yn ystod eu camau cynnar. Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth yn ystod ein harolygiad fod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu clywed, a bod cwynion yn derbyn ymateb mewn modd amserol a phriodol. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn llwyr ymwybodol o sut i wneud cwyn.
- 3.20. Cynigir eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd, ond roedd dod o hyd i ymwelydd annibynnol sy'n medru siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn heriol. Gwelsom dystiolaeth fod gan Gyngor Gwynedd berthynas gadarnhaol gyda darparwyr eiriolaeth, a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd y gwasanaethau. Mae nifer y plant sy'n derbyn y cynnig am eiriolaeth yn parhau'n isel, a dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio'n arbennig ar werthuso ei berfformiad yn y maes hwn. Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar amrediad y fforymau sydd ar gael i ymgysylltu â phobl ifanc, ac mae'n cydnabod bod hwn yn faes i'w ddatblygu'n barhaus.

4. Diogelu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Pan fydd pobl yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, neu mewn perygl ohonynt, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys sydd wedi'u trefnu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau rheoli risg neu ddiogelwch yn llwyddiannus wrth leihau risg wirioneddol neu bosibl. Nid yw pobl yn cael eu gadael mewn amgylcheddau anniogel neu beryglus. Mae polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn yn cael eu deall a'u hymgorffori'n dda ac yn cyfrannu at ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n codi. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir archwilio newidiadau a gwelliannau yn ymddygiad asiantaethau a pherfformiad proffesiynol mewn modd agored ac adeiladol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 4.1. Roedd yr adran yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu, ac roedd gweithwyr yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel. Gwelsom weithwyr medrus a chymwys sy'n cael eu cefnogi yn perfformio'n dda wrth ddiwallu angen plant a phobl ifanc i gael eu diogelu. Roedd ymholiadau amddiffyn plant yn amserol, yn drylwyr ac wedi'u llywio gan benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd strategaeth a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau ac arferion da. Roedd canfyddiadau a phenderfyniadau o ran niwed sylweddol yn glir ac yn arwain at gamau gweithredu, gan gynnwys camau gweithredu brys yr oedd eu hangen i ddiogelu plant a phobl ifanc. Roedd gweithiwr cymdeithasol profiadol gyda'r cymwysterau priodol yn arwain ymholiadau amddiffyn plant. Gwelsom dystiolaeth o ymatebion prydlon i atgyfeiriadau amddiffyn plant, a chyswllt da gydag asiantaethau partner yn ystod y broses ymchwilio.
- 4.2. Roedd yr awdurdod yn ymwybodol o risgiau a gwendidau, gan gynnwys mewn perthynas ag ymddygiadau megis mynd ar goll, camddefnyddio sylweddau, troseddu, cam-fanteisio, masnachu pobl, ymddygiadau cymryd risg a thechnolegau newydd. Ar y cyfan, roedd camau gweithredu rhagweithiol yn cael eu cymryd i liniaru niwed neu niwed posibl, ac roedd ymddygiadau o'r fath yn derbyn ymateb wedi'i gydlynyn'n dda a oedd yn lleihau'r perygl o niwed. Mewn nifer o achosion a adolygwyd, gwnaeth arolygwyr weld dystiolaeth o waith amlasiantaeth effeithiol, a chymorth dwys yn cael ei ddarparu i deuluoedd mewn achosion lle roedd risgiau o niwed sylweddol. Yn yr achosion hyn, roedd canlyniadau da yn cael eu cyflawni, gyda phlant yn dychwelyd adref i'w rhieni. Gwnaed tipyn o waith i gynnal rhieni gyda'u teuluoedd, ac er nad oedd hyn yn bosibl ym mhob achos, roedd canlyniadau da yn cael eu cyflawni, gyda'r plant yn aml yn aros o fewn y teulu estynedig.
- 4.3. Mae gan yr awdurdod lleol ddull eglur o asesu risgiau, ac mae'r berthynas rhwng rheoli risgiau a llwybrau amddiffyn plant bob amser

wedi'u diffinio'n dda. Cafodd effeithiolrwydd y cynllun o ran diogelwch a llesiant y plentyn ei werthuso fel rhan o'r broses gynadledda ar gyfer adolygu'r gwaith o amddiffyn plant, ac roedd yn cynnwys safbwynt y person ifanc am ei gynllun. Gwelsom dystiolaeth mewn un achos lle gwrandawyd ar safbwyntiau'r plant a'u hymgorffori yn y cynlluniau, gyda chanlyniadau da yn cael eu cyflawni pan gafodd y plant eu dychwelyd adref yn llwyddiannus. Mewn rhai achosion, gallai dull cryfach o sicrhau ansawdd fod wedi cryfhau ansawdd y cynlluniau diogelu.

- 4.4. Roedd 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' yn newyddbeth diweddar yng ngwasanaethau plant Gwynedd, ac roedd yn cael ei dreialu mewn cynadleddau amddiffyn plant. Dyma fodel sy'n dod i'r amlwg sy'n canolbwyntio ar bedair elfen allweddol o sgysiau, trothwyon, newid a mesur. Mae hyfforddiant wedi'i roi i weithwyr cymdeithasol o ran cynnal sgysiau cydweithredol a datblygu ymwybyddiaeth yn y modd y caiff iaith ei defnyddio. Mae'r model yn ceisio mesur canlyniadau trwy ddefnyddio graddfa, gyda ffocws clir ar newid.
- 4.5. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau cadarn ac ymyriadau pan nodwyd risgiau o ran amddiffyn plant. Roedd grwpiau craidd amlasiantaeth effeithiol yn cael eu cynnal mewn modd amserol, a defnyddiwyd cyfarfodydd panel yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio gofal a phennu lefel risg. Roedd cyfarfodydd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael eu cadeirio gan uwch-reolwr a'u cynrychioli gan reolwyr tîm ar draws yr adran, cynghorydd cyfreithiol, darparwyr adnoddau a phartneriaid perthnasol. Gwelsom dystiolaeth o ymgysylltu'n effeithiol fel rhan o'r broses hon, ynghyd â gwaith dwys gan y tîm ar ffiniau gofal, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid i liniaru risgiau a chyflawni canlyniadau da. Adolygwyd cynnydd mewn da bryd o fewn proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

5. Arwain, rheoli a llywodraethu

Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac yn sefydlu strategaeth effeithiol gyda'i gilydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd a chanlyniadau da ar gyfer pobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir ar gyfer cynghorwyr, rheolwyr a staff. Mae gwasanaethau'n cael eu harwain yn dda, mae'r cyfeiriad yn glir, ac mae'r broses o arwain newid yn gryf. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau drwy gydol y sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi gofal a chymorth i bobl ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Mae cyfranogiad gan bobl leol yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig ddigonedd o wybodaeth a dealltwriaeth o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Crynodeb o'r canfyddiadau

- 5.1. Roedd y gweithlu yn cydnabod ac yn deall gweledigaeth Cyngor Gwynedd ac ethos 'Ffordd Gwynedd,' a 'rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud,' ac roedd yn adlewyrchu ethos y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 5.2. Roedd yr aelod arweiniol ac aelodau etholedig eraill yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da i blant, gydag ethos rhianta corfforaethol cryf yn ymestyn ar draws y cyngor. Gwelsom dystiolaeth fod yr aelod arweiniol yn frwdfrydig wrth hyrwyddo gwasanaethau i blant yn gorfforaethol. Roedd cadeirydd y bwrdd rhianta corfforaethol a'r aelod arweiniol ar gyfer plant wedi treulio amser yn cyfarfod â thimau gwaith cymdeithasol, ac roeddent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda phennaeth y gwasanaeth a'r swyddog sicrhau ansawdd er mwyn cael dealltwriaeth well o heriau a chryfderau'r adran. Caiff bwrdd rhianta corfforaethol Cyngor Gwynedd ei gefnogi gan y prif weithredwr, sy'n cadeirio un o'r ffrydiau gwaith er mwyn datblygu gwell profiadau a chanlyniadau ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal. Cafwyd strategaeth rhianta gorfforaethol ddiwygiedig a oedd yn ategu'r angen i ddatblygu ffrydiau gwaith, er mwyn cryfhau perfformiad y bwrdd rhianta corfforaethol.
- 5.3. Mae'n bwysig bod gwasanaethau plant yn cael blaenoriaeth barhaus, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal er mwyn galluogi'r adran i ysgogi gwelliannau i blant a theuluoedd yn wyneb nifer cynyddol o achosion, cymhlethdod y gwaith, a newidiadau a welir ym mhroffil plant sy'n derbyn gofal.
- 5.4. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth gan aelodau wrth ddatblygu'r strategaeth cefnogi teuluoedd. Mae gwaith cynnar yn cael ei wneud ar hyn o bryd o ran mapio'r angen, gyda golwg ar ddatblygu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau ataliol yn y sir. Cydnabyddir bod atal yn faes sydd angen ei ddatblygu a bod angen rhoi blaenoriaeth iddo.

Mae Gwynedd yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, sydd ag ardaloedd gwledig helaeth, sy'n ychwanegu at gymhlethdod y gwaith o ddarparu gwasanaethau hygyrch i bob plentyn a phob teulu.

- 5.5. Mae gan Gyngor Gwynedd weithlu cadarn, medrus a phrofiadol – gyda'r rhan fwyaf o bobl wedi bod yn gweithio i'r awdurdod lleol ers blynnyddoedd lawer. Roedd y tîm uwch-reolwyr wedi'i sefydlu'n dda, ac roedd gan y gweithlu lawer o hyder ynddo. Roedd tystiolaeth fod Cyngor Gwynedd yn tyfu gweithlu medrus ei hunain – roedd ganddynt gysylltiadau gyda phrifysgol, ac roeddent yn darparu cyfleoedd da ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus. Cawsom ymateb aruthrol gan y gweithlu yn dilyn arolwg staff a anfonwyd mewn cysylltiad â'r arolygiad, a oedd yn adlewyrchu gweithlu sy'n ymwneud â gwelliant parhaus.
- 5.6. Yn gyffredinol, roedd staff yn gadarnhaol ynghylch eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol ac roeddent yn gwerthfawrogi gallu ymarfer yn y Gymraeg. Maes a gafodd ei gydnabod fel cryfder ymhlith y gweithlu oedd y berthynas weithredol rhwng timau, adrannau ac asiantaethau allanol. Roedd tystiolaeth helaeth o hyn yn y ffeiliau achos a adolygwyd.
- 5.7. Dywedodd y gweithlu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr, a bod modd iddynt godi pryderon wrth iddynt ddod i'r amlwg. Roedd timau'n cael eu harwain gan reolwyr gweithredol cryf. Roedd staff wedi symud rhwng timau, a bu rhai newidiadau yn ddiweddar lle roedd gan rai timau reolwyr tîm ac uwch ymarferwyr cymharol newydd - yr oedd pob un ohonynt wedi cael cynnig hyfforddiant rheoli. Roedd pennaeth y gwasanaeth yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda, ac yn adnabod ei gweithlu'n dda iawn. Roedd ganddi wybodaeth am y plant a'r teuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth, ac roedd hi'n goruchwyllo pob plentyn sy'n destun gorchymyn cyfraith gyhoeddus ac sydd wedi'i leoli gyda rhieni mewn modd uniongyrchol. Mae pennaeth y gwasanaeth yn defnyddio amrediad o ffyrdd i gynnal goruchwyliaeth, gan gynnwys cynnal sgysiau rheolaidd gyda'i staff ac amrywiaeth o baneli.
- 5.8. Mae angen cryfhau dulliau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod lleoliadau a gomisiynir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o ansawdd da ac yn cyflawni canlyniadau da. Mae angen rhoi sylw i gryfhau sicrwydd ansawdd ym meysydd gwybodaeth, cyngor a chymorth ac mewn perthynas â phlant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.
- 5.9. Roedd staff yn amlwg yn deall y polisi goruchwyllo a dogfennau, a gwelwyd arferion goruchwyllo da ar draws yr adran. Gwelsom dystiolaeth o ddisgwyliad yr awdurdod bod gweithwyr a rheolwyr yn gwneud gwaith paratoi cyn cynnal sesiynau goruchwyllo amserol, a bod gweithwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i adolygu achosion yn y sesiynau goruchwyllo.

Methodoleg

Gwaith maes

Gwnaethom gynnal naw diwrnod o weithgarwch gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 49 ffeil achos; aethom ar drywydd 15 o'r rhain drwy gyfweiliadau olrhain a gynhaliwyd gyda gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu, ac roedd pedwar yn destun grŵp ffocws olrhain a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfweild â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o weithwyr yr awdurdod lleol, aelodau, uwch-swyddogion, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, a'r prif weithredwr.

Gwnaethom gyfweild ag amrywiaeth o sefydliadau partner, a oedd yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o chwech o ffeiliau goruchwyllo staff.

Gwnaethom adolygu 185 ymateb i'r arolwg staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddibenion yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a wnaed am y gwasanaethau plant.

Y tîm arolygu:

Prif arolygydd: Sharon Eastlake. Arolygwyr ategol: Christine Jones, Kate Young, Sian Roberts.

Cydnabyddiaethau

Dymuna AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau, a sefydliadau partner.

Eitem 5

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	Pwyllgor Craffu Gofal
DYDDIAD Y CYFARFOD	6 Tachwedd 2018
TEITL YR EITEM	Adroddiad Blynyddol ar ymdrin â chwynion a cheisiadau gwybodaeth gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer 2017/2018
PWRPAS	Cyflwyno trosolwg o'r cwynion a'r ceisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod 2017/2018
AWDUR	Dafydd Paul, Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd
AELOD CABINET	Cynghorydd Dilwyn Morgan

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 1 Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd yr ymchwilir ac ymdrinnir â chwynion o fewn y Gwasanaeth. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ystod y flwyddyn a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd. Ceir hefyd fanylion am y niferoedd o geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

2. Cyd-destun

- 2.1 Y Swyddog Gofal Cwsmer sydd yn delio gyda chwynion a cheisiadau gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn ar ran yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer ar gyfer yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ei lleoli o dan reolaeth yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Er i'r Swyddog gael ei lleoli oddi fewn i'r Gwasanaeth, mae'n bwysig nodi fod y Swyddog yn annibynnol i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn unol â Chanllawiau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Drefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol yn ymwneud ag unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran neud sydd â hawl i eirioli ar ran defnyddiwr gwasanaeth.

3. Hwylustod y Drefn Gwynion

- 3.1 Bydd unigolion yn cysylltu gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer i fynegi eu hanfodlonrwydd gyda gwasanaeth yr Adran; gan amlaf mae'r dewis i wneud cwyn yn ddewis olaf ganddynt. Mae'r Swyddog yn canolbwyntio ar sicrhau

hwylustod i'r Drefn Gwyno fel bod yr achwynwyr yn ymwybodol o'u hawl i gael gwrandawriad.

Caiff gwybodaeth ynglŷn â'r drefn gwyno gryn gyhoeddusrwydd ac mae'r wybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau e.e. taflenni, taflenni "hawdd i'w darllen" ac ar-lein. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel gall yr achwynydd ddewis yr iaith sydd orau ganddo ef/ganddi hi. Mae trefniadau amgen megis braille neu ieithoedd eraill hefyd ar gael ar ofyn. Yn ogystal, gellir trefnu eiriolaeth neu gefnogaeth arall i'r achwynydd yn ei h/iaith ddethol er mwyn cynorthwyo wrth i'r Drefn Gwyno fynd rhagddi. Mae'r taflenni gwybodaeth yn cael eu diwygio a'u diweddarau'n barhaus.

Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2017/2018			
	Cymraeg	Saesneg	Cyfanswm Cwynion
Ymholiadau a Chwyn Anffurfiol	16	39	55
Cam 1	6	13	19
Cam 2		1	1
Ombwdsmon		0	0

4. Materion a gofnodwyd fel Ymholiadau

- 4.1 Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus y bydd eu cwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol fe ymdrinnir â'r mater fel ymholiad neu gwyn anffurfiol. Enghraifft arall o hyn fyddai llythyr gan Aelod Seneddol neu Gynghorydd lleol sy'n dymuno mynegi anfodlonrwydd neu sydd angen ateb penodol i gwestiwn.
- 4.2 Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn, gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen dilyn y Drefn Gwynion ffurfiol gan fod hwn yn gyfle i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb. Un o'r themâu amlwg wrth ddelio ag ymholiadau a chwynion anffurfiol ydy camddealltwriaeth rhwng pobl megis diffyg cyfathrebu clir.

TABL 1. Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd 2017/2018	
	<i>Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>
<i>Cyfreithwyr</i>	4
<i>Ombwdsmon</i>	0
<i>Aelodau lleol</i>	2
<i>Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad</i>	16
<i>Defnyddwyr Gwasanaeth</i>	0
<i>Perthynas</i>	25
<i>Y Cyhoedd</i>	4
<i>Gofalwr Maeth</i>	0

<i>Asiant Arall e.e. gwasanaeth eiriolwr</i>	4
<i>Siroedd eraill</i>	0
<i>Gweithiwr Cymdeithasol</i>	0
<i>Comisiynydd Gwybodaeth</i>	0
Cyfanswm	55

5. Cam 1 - Trefn Gwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol - Datrysiaid Lleol

- 5.1 Gwneir pob ymdrech i ddatrys cwynion fel bod yr achwynydd a'r Gwasanaeth yn fodlon. Yn amlwg, datrysiaid yw'r canlyniad gorau i bawb a gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi amser ac ymdrech yn gynnar. Os yw'r achwynydd, fodd bynnag, yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol, y drefn arferol yw cysylltu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb â'r achwynwyr neu gynrychiolydd er mwyn ceisio datrys y mater. Dros y blynyddoedd, mae'r Swyddog Gofal Cwsmer wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau gweithio clos gyda'r timau, rheolwyr a'r adain gyfreithiol fel modd o drafod a datrys materion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer fechan o gwynion sy'n cyrraedd Cam 2 o'r Drefn Gwynion.

Mae'n deg dweud fod tuedd clir dros y 4 blynedd diwethaf ers cyflwyno Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, gan mai dim ond un cwyn sydd wedi ei uchafu i Gam 2 yn y cyfnod hwn. Mae hyn o ganlyniad i'r proffesiynoldeb mae'r Rheolwyr Tîm ac Uwch Reolwyr yn ei ddangos wrth ddelio â chwynion. Maent yn deall y pwysigrwydd o ddatrysiaid lleol, ac wrth drafod yn uniongyrchol gyda'r achwynydd, maent yn gallu cyfarch materion cyn gynted â phosib. Mae hyn yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu parhau i gydweithio gyda'r teulu er lles y plentyn/person ifanc.

Ceir dadansoddiad o'r cwynion Cam 1 yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2017/2018 yn **Atodiad 1**.

6. Cam 2 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymchwiliad Ffurfiol

- 6.1 Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiaid buan a lleol yn llwyddiannus, yn arferol, nid oes rhaid i gwynion gael eu dwysáu i Gam 2 - Ymchwiliad Ffurfiol o'r Drefn Gwynion er mwyn datrys anghydfod/anawsterau/materion. Mewn cymhariaeth ag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Cyngor Gwynedd yn hynod lwyddiannus wrth ddelio â chwynion yng Ngham 1, tra mae cyfran uwch o gwynion Awdurdodau eraill yn dwysáu i Gam 2.
- 6.2 Pe byddai achwynydd eisiau uchafu eu cwyn i Gam 2, byddai'n rhaid iddynt ddarparu cofnod llawn o'u cwyn ynghyd ag unrhyw ddeilliannau; dyma fydd yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer beth rydym yn ei alw'n Ymchwiliad Cam 2. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal gan ddau berson annibynnol i'r Cyngor sydd yn cael eu hadnabod fel Ymchwilydd Annibynnol a Pherson Annibynnol. Eu rôl ydy cyfarfod gyda'r achwynydd, cyfweld staff perthnasol a darllen y ffeil gofal cymdeithasol. Yn dilyn hyn maent yn creu adroddiad o'u darganfyddiadau

ynghyd â unrhyw argymhellion i'r Adran. Penderfyniad yr Adran yw ymateb yn uniongyrchol i'r achwynydd am gynnwys yr adroddiad.

- 6.3 Yn ystod 2017/2018, derbyniwyd un cais i uchafu cwyn i Gam 2 y Drefn Gwynion Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ymchwiliad wedi dod i ben ac mae ymateb cynhwysfawr wedi cael ei ddarparu i'r achwynydd unigol. Fodd bynnag, penderfynodd yr achwynydd i gyfeirio'r achos ymlaen at yr Ombwdsmon yn ystod haf 2018. Bydd y gwyn hwn felly yn cael eu hadrodd yn adroddiad blynyddol 2018/2019.

Ceir dadansoddiad o'r gwyn Cam 2 yr ymdriniwyd â hi yn ystod 2017/2018 yn **Atodiad 2**.

7. Cwyn wedi ei throsglwyddo i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

- 7.1 Mae gan bob unigolyn hawl i gwyno yn uniongyrchol i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus os ydynt yn anfodlon gyda gwasanaeth yr Adran ar unrhyw bryd yn ystod y broses gwyno.

Yn arferol, os na ymdriniwyd â'r gwyn o dan Gam 1 o'r Drefn Gwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes, caiff y gwyn ei chyfeirio yn ôl i'r Adran i geisio datrys y gwyn yn lleol. Os yw'r unigolyn yn parhau yn anfodlon wedi hynny, mae ganddynt hawl i ddwysáu eu cwyn i Gam 2 o'r Drefn Gwynion Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn ôl at Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru neu Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dibynnu ar natur y gwyn i gynnal ymchwiliad.

- 7.2 Roedd un ymholiad Ombwdsmon yn parhau o 2016/2017. Cysylltodd yr achwynydd â'r Ombwdsman gan eu bod yn anhapus gydag ymateb yr Adran ynghyd â'r penderfyniad i wrthod uchafu eu cwyn i Gam 2 y Drefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparwyd esboniad llawn o'r sefyllfa ynghyd â dogfennaeth berthnasol i'r Ombwdsman am y gwyn. Derbyniwyd ymateb gan yr Ombwdsman yn niwedd mis Ebrill 2017, felly bydd y canlyniad yn cael ei nodi yn adroddiad blynyddol 2018/2019.

TABL 2 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2017/2018	
	<i>Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>
<i>Cam 1</i>	19
<i>Cam 2</i>	1
<i>Ombwdsmon</i>	0
Cyfanswm	20

8. Ymlyniad at Amserlen Ymateb y Drefn Gwyno Statudol

- 8.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae'n archwilio ac ymdrin â chwynion o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Canllaw a'r Rheoliadau.

TABL 3 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol Perfformiad Ymateb 2017/2018						
Cam 1						
<i>Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad</i>	<i>Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad</i>	<i>Wedi eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod</i>	<i>Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod</i>	<i>Penderfyniad wedi ei gyhoeddi cyn pen 5 diwrnod</i>	<i>Amser ymateb wedi'i ymestyn</i>	<i>Cyfartaledd dyddiau wedi eu hystyng</i>
19	0	19	15	14	5	28*
Cam 2						
<i>Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod</i>	<i>Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith</i>	<i>Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol</i>			<i>Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis</i>	
1	0	1			0	

*Dylid nodi fod y cyfartaledd o ddyddiau wedi eu hystyng yn uwch na'r arfer ar gyfer 2017/2018 gan fod un gwyn, sef GC/4200-17, wedi cymryd 110 diwrnod gwaith i'w datrys yn llawn. Roedd cyfartaledd dyddiau wedi eu hystyng ar gyfer y pedair cwyn arall yn 7.5 diwrnod gwaith.

9. Dysgu Gwersi ac Adnabod Tueddiadau - gweler Atodiad 1

9.1 Cyflwynir adroddiad chwarterol i gyflwyno'r modd yr ymdrinnir â chwynion i Bennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hwn yn gyfle i ddadansoddi pob cwyn ac i drafod a dysgu er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnal gan yr Adran.

9.2 Tueddiadau Cwyno - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithio yn ddyddiol gydag amrediad eang o deuluoedd gwahanol. Mae rhai teuluoedd yn dod i sylw'r Adran drwy ofyn yn uniongyrchol am gymorth, er enghraifft, os oes anabledd gan eu plentyn. Mae'r mwyafrif o deuluoedd yn dod i sylw'r Adran oherwydd pryderon dros les a diogelwch plentyn neu berson ifanc.

Oherwydd natur gwaith Gweithwyr Cymdeithasol, yn anffodus mae tensiwn neu wrthdaro gyda theuluoedd yn rhan annatod o'u gwaith. Mae rhaid i Weithwyr Cymdeithasol wneud penderfyniadau anodd iawn, ac nid yw teuluoedd yn hapus bob amser. Mae'r Adran yn deall ac yn derbyn y gall teuluoedd fod yn anfodlon sydd yn arwain atynt i wneud cwyn ffurfiol yn erbyn y Gweithiwr Cymdeithasol. Y Rheolwr Tîm perthnasol sydd yno yn adnabod a oes sylfaen i'r gwyn gan geisio dod i ddatrysiaid cyn gynted â phosib er lles y plentyn/person ifanc.

9.3 Anhapus gyda Gweithiwr Cymdeithasol

Roedd sawl cwyn a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â Gweithiwr Cymdeithasol yn bennaf o ganlyniad i unigolion yn anhapus gyda'u

gweithrediadau a gyda phenderfyniadau'r Gweithiwr Cymdeithasol. Derbyniwyd sawl cwyn hefyd o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu clir rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a'r unigolyn/teulu'r plentyn.

Nid oes thema glir am y math o gwynion a gafodd eu gwneud yn erbyn Gweithwyr Cymdeithasol gan fod pob cwyn yn unigol i'r achos. Yn unol â'r Canllawiau Cwynion, bydd y Rheolwr Tîm yn trafod y gwyn gyda'r unigolyn. Drwy gynnal trafodaeth, mae'r Rheolwr Tîm yn gallu ymateb i faterion yn uniongyrchol ac mae'r mwyafrif o achosion yn cael eu datrys dros y ffôn; mae'n glir fod y ffordd yma o ddelio â chwynion yn gweithio. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r gwyn yn deillio o gamddealltwriaeth a cham-gyfathrebu. Unwaith caiff y materion eu hesbonio'n llawn, rhan fwyaf o'r amser, bydd yr achwynydd yn hapus i barhau i weithio gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol er lles y plant.

Mae cyfathrebu clir yn hynod bwysig ac mae'r ffordd mae pethau yn cael eu hesbonio i deuluoedd o'r cychwyn yn hanfodol i sicrhau eu bod yn deall pam mae'r Gwasanaeth yn gwneud yr hyn maent yn ei wneud, beth mae'r Gwasanaeth yn gallu ei gynnig a pham, mewn rhai achosion, nad oes modd cynnig unrhyw Wasanaeth o gwbl.

9.4 **Achwynwyr a Disgwyliadau Rhiant**

Mae'n anodd ymateb i gwynion gan deuluoedd sydd yn teimlo y dylai'r Gwasanaeth wneud mwy i'w cefnogi, yn credu y dylent dderbyn mwy o wasanaeth/cyswllt ac yn credu y dylid dychwelyd eu plant yn ôl i'w gofal. Mae disgwyliadau rhieni o beth mae'r Gwasanaeth yn gallu ei gynnig yn uchel, os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu methu mewn unrhyw ffordd gan y Gwasanaeth maent yn gwneud cwyn.

Mae'n bwysig iawn nodi hefyd, ar sawl achlysur pan fydd achwynwyr yn cysylltu gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf maent o dan deimlad – boed hynny yn flin neu'n ofidus am benderfyniad neu gamddealltwriaeth. Yn y mwyafrif o achosion, bydd yr achwynydd yn fodlon wedi iddynt gael y cyfle i drafod eu pryder gyda'r Swyddog Gofal Cwsmer yn gyntaf ac yna gyda'r Rheolwr Tîm perthnasol, a byddent yn hapus gyda chanlyniad y trafodaethau hyn.

9.5 **Hafan y Sêr**

Cafwyd dwy gwyn Cam 1 a sawl ymholiad yn ystod y flwyddyn ynghylch Hafan y Sêr, yr Uned Egwyl Fer newydd ym Mhenrhyndeudraeth, ac yn benodol fod oediad wedi bod yn agor yr Uned newydd. Roedd datblygu'r uned newydd yn brosiect sylweddol o ran ei natur, ac yn anffodus, bu sawl rhwystr annisgwylidig yn ystod rhediad y prosiect. Wrth edrych yn ôl ar y prosiect hwn, ac wrth ystyried prosiectau tebyg i'r dyfodol, efallai y dylid ystyried y trefniadau rheoli prosiect ac a oes angen rheolwr prosiect penodol ar gyfer datblygiad o'r maint hwn.

Mae'r Uned bellach wedi agor, felly ni ragwelir y bydd rhagor o gwynion penodol o'r math hyn am yr Uned yn y dyfodol.

10. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth i Staff

- 10.1 Rhan bwysig o ddyletswydd y Swyddog Gofal Cwsmer yw darparu hyfforddiant i staff o ran y Drefn Gwynion, fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'r drefn ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl nhw.

Mae bwriad cynnal hyfforddiant yn ystod 2018/2019 i loywi ymwybyddiaeth staff yr Adran o'r Drefn Gwynion a'r Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd er mwyn llunio trefn gwynion newydd a fydd yn cyd-fynd yn well gydag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Unwaith y bydd y canllawiau newydd hyn wedi cael sêl bendith y Llywodraeth, bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu i holl staff yr Adran.

11. Dyletswyddau Eraill

- 11.1 Mae'r Swyddog Gofal Cwsmer Plant a Chefnogi Teuluoedd nid yn unig yn ymdrin â chwynion ac ymholiadau ond hefyd gyda cheisiadau am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Caiff y ceisiadau hyn eu gwneud gan yr Heddlu, Cyfreithwyr, Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol yn ogystal ag unigolion. Yn unol â'r Deddfau hyn, mae amserlenni penodol i lynu atynt. Mae penderfynu pa wybodaeth sy'n briodol i gael ei ryddhau yn waith sy'n gofyn am fedrusrwydd a gall fod yn her emosiynol ar brydiau. Mae'r Swyddog sydd yn ymdrin â'r ceisiadau am wybodaeth yn treulio oriau maith ar rai o'r ceisiadau mwy cymhleth y mae'r Adran yn eu derbyn. Mae hyn yn golygu bod nifer sylweddol o oriau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hateb ymhen yr amser penodedig.
- 11.2 Roedd nifer y ceisiadau am wybodaeth a wnaethpwyd o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 yn uwch yn ystod 2017/2018 o gymharu â 2016/2017. Y rheswm dros hyn yw bod Gwasanaeth Erllyn y Goron yn disgwyl fod yr Heddlu yn gwneud cais am wybodaeth gan Wasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pob achos sydd yn ymwneud â phlentyn/person ifanc. Rhagwelir y bydd y tuedd hwn yn parhau yn ystod 2018/2019 gyda chyflwyniad Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ar 25 Mai 2018.

TABL 5. Cais am wybodaeth yn ystod 2017/2018	
Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000	63
Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998	168

12. Mynegi Diolch - gweler Atodiad 3

- 12.1 Mae hefyd yn bwysig cydnabod a chofnodi'r diolchiadau sydd wedi eu derbyn gan ein defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae dadansoddiad pellach o'r diolchiadau hyn wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

TABL 6. Mynegi Diolch yn ystod 2017/2018

62

13. Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/2019

- 13.1 Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod bydd y Swyddog Gofal Cwsmer yn parhau i ymateb i unrhyw ymholiadau a chwynion a fydd yn cael eu gwneud yn erbyn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd o dan y Drefn Gwynion. Drwy ystyried fod yno gynnydd wedi bod yn niferoedd y cwynion a wnaethpwyd dros y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir bydd y tuedd hwn yn parhau. O ganlyniad bydd angen sicrhau fod pob ymholiad neu gwyn a dderbynnir gan yr Adran yn parhau i dderbyn ystyriaeth lawn, gan sicrhau fod y gwersi i'w dysgu o bob achos hefyd yn derbyn sylw cynhwysfawr er mwyn cyfrannu a gwella'r gwasanaeth a ddarparir.
- 13.2 Yn dilyn trafodaeth gydag Arolygwyr Arolygaeth Gofal Cymru yn ystod eu harolwg diweddar o Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, mae bwriad yn ystod 2018/2019 i ddechrau nodi a oes sail i'r cwynion mae'r Adran yn eu derbyn. Er nad oes disgwyliad arnom i nodi hyn, gallai fod yn ddefnyddiol i ddeall mwy am y math o gwynion sydd yn cael eu gwneud.
- 13.3 Gyda chyflwyniad y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 yn niwedd mis Mai 2018, rhagwelir bydd yno gynnydd yn y nifer o geisiadau gwybodaeth a wneir i'r Adran.
- 13.4 Bydd system recordio gyfrifiadurol newydd Respond yn cael ei ddefnyddio gan y Swyddog Gofal Cwsmer o fis Mehefin 2018. Mae'r system hwn yn cael ei ddefnyddio i gofrestru pob achos ac yn cael ei uwchraddio o hen fersiwn eleni. Y nod yw datblygu'r system newydd yma i wella'r modd caiff y gwersi a ddysgwyd eu monitro a'u rhoi ar waith yn dilyn cwyn.
- 13.5 Mae cynlluniau hefyd mewn lle i gynhyrchu taflen wybodaeth newydd ar y Drefn Gwynion a fydd yn benodol ar gyfer yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

ATODIAD 1 – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU YN YSTOD 2017/2018						
Cyf	Disgrifiad byr	Categori	Cam	Uned / Tîm	Deilliannau	Gwersi i'w Dysgu
Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd						
GC/3912-17	Mam wedi cysylltu eisiau gwneud cwyn yn erbyn y Rheolwr Gweithwyr Cefnogol, Tîm Plant. Nid oedd y fam yn teimlo fod y Rheolwr yn deall ei sefyllfa bersonol ac yn credu ei fod wedi gwneud penderfyniad i ddod a chyswllt i ben. Nid oedd y fam eisiau trafod ei chwyn, roedd eisiau ymateb drwy lythyr.	Diffyg Cyfathrebu Materion Cyswllt	Cam 1	Gwasanaethau Cefnogol	Anfonwyd llythyr gan yr Uwch Reolwr Gweithredol yn ymddiheuro fod y fam yn teimlo fod y Rheolwr ddim yn deall ei sefyllfa ac yn nodi nad dyma oedd ei fwiad o gwbl. Nodwyd hefyd y byddai'n well i'r fam drafod unrhyw bryderon am gyswllt yn uniongyrchol gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol yn unig, byddai hyn yn osgoi unrhyw ddryswch gan mai cyfrifoldeb Gweithiwr Cymdeithasol yw rheoli achosion a gwneud penderfyniadau arnynt, nid rheolwr y Gwasanaeth Cefnogol. Anfonwyd y llythyr a chafodd y mater ei gau.	Mae angen bod yn glir mai cyfrifoldeb Gweithwyr Cymdeithasol yw gwneud penderfyniadau mewn achos ac mai rôl y Gwasanaeth Cefnogol yw sicrhau trefniadau addas yn unol â'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth. Er bod gan y Rheolwr gyfraniad i'w wneud, nid y Gwasanaeth Cefnogol sy'n penderfynu dod a threfniadau cyswllt i ben.
GC/3926-17	Tad eisiau cwyno am agwedd Gweithiwr Cymdeithasol. Roedd yn teimlo fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cymryd yn ei erbyn ac yn cymryd ochr y fam. Roedd y tad hefyd yn teimlo fod rhai o'r pethau roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ei ddweud wrtho yn annerbyniol. Roedd y Tad yn cael ei gefnogi gan ei Weithiwr Allweddol wrth wneud y gwyn. Roedd y tad yn awyddus iawn i gwrdd gyda'r Rheolwr Tîm i drafod ei gwyn wyneb yn wyneb.	Perfformiad Staff	Cam 1	Tîm Plant Dwyfor	Trefnwyd cyfarfod rhwng y Tad, Gweithiwr Allweddol, Rheolwr Tîm a'r Gweithiwr Cymdeithasol. Trafodwyd y gwyn yn ystod y cyfarfod, ac roedd y Tad yn fodlon iawn gyda'r hyn a ddywedwyd. Ysgydwodd y Tad law'r Gweithiwr Cymdeithasol ar ddiwedd y cyfarfod ac roedd yn fodlon cydweithio gydag ef er lles ei ferch. Cafodd y gwyn ei datrys a'r mater ei gau.	Mae'r gwyn hon yn pwysleisio'r heriau a wynebir gan Weithwyr Cymdeithasol wrth geisio rheoli achosion gofal preifat ac anghydfodau cyswllt. Codwyd sawl pryder amddiffyn plant gan y rhieni a cheisiodd y Gweithiwr Cymdeithasol reoli'r rhain. Trefnwyd cyfarfod rhwng yr achwynydd a'r Rheolwr Tîm yn gyntaf, ac yna rhwng y Rheolwr Tîm, yr achwynydd a'r Gweithiwr Cymdeithasol lle trafodwyd cymhlethdodau achosion gofal. Roedd yr achwynydd yn fodlon fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi

						ceisio rhannu cyngor priodol er mwyn sicrhau diogelwch ei ferch.
